Cynhaliwyd Parti Coffi un noson a'r elw'n mynd i Adran yr Urdd. Roedd yno hefyd nifer o stondinau. Mrs Mair Meganwy Griffiths a wahoddwyd i agor y noson a mynegodd hithau ei llawenydd o gael y fraint o gyflawni'r dasg. Cawsom anerchiad diddorol ganddi a rhodd deilwng iawn i'r gronfa. Yn fuan iawn cliriwyd yr holl stondinau a da yw deall bod elw sylweddol wedi ei wneud.

Cymerodd nifer o'r plant ran yng Nghwis yr Urdd a gynhaliwyd y tro hwn yn yr Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth. Cafwyd hwyl arbennig o dda yno. Yn ystod y mis hefyd cymerwyd rhan yng Nghwis y Dysgwyr a drefnwyd gan Lyfrgell Dyfed. Cafodd Louise Collins, Clare Rees, Magnus Wallace a Kay Smith fwynhad wrth ddarllen y llyfrau ac wrth ateb y cwestiynau.

Roedd y plant ieuangaf wrth eu bodd yn cael mynd lawr yng nghwmni Mrs E. A. Evans i Ganolfan Llenyddiaeth Plant yn Aberystwyth a chael clywed rhagor o hynt a helynt Cadwgan a chael wrth